# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk and Chief Financial Officer* | Bethesda |
| **Bethan Roberts** | Gwynedd |
| Rhif Ffôn: 01248 602131 | LL57 3AE |
| Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org | |


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
**Nos Iau 21 Mawrth 2024 am 18.30**

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd David Roberts
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Iwan Hywel

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mair O Pierce.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Beca Roberts, Mary Hayes a Lowri Jones.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Nodwyd fod angen ychwanegu'r Cyng. Anwen Jones yn bresennol yn cyfarfod diwethaf. Yn dilyn yr addasiad hwn, penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Llwybr Rhif 3** - Nodwyd fod y swyddog llwybrau wedi cael sgwrs gyda thenantiaid y tir ac nid oes ganddynt wrthwynebiad i'r gwaith gwella llwybr troed mewn egwyddor - ar y gweill.

3.2 **Drychau traffig, Lon y Grug/Llwybr Main -** Adroddwyd fod y Clerc wedi cael sgwrs gyda Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd. Nodwn ein pryder ynglŷn â gwelededd ar y groesffordd dan sylw ond yn anffodus nid yw Cyngor Gwynedd yn gyffredinol yn cefnogi gosod drychau oherwydd mae tystiolaeth yn dangos yn hytrach na gwella diogelwch y gallai drych gynyddu risgiau diogelwch, a chafwyd rhestr o'r risgiau perthnasol.

3.3 **Seddi Gwag –** Y Clerc wedi hysbysebu'r sedd wag, dim ymateb hyd yn hyn. Os nad oes diddordeb, y Clerc i hysbysebu eto.

3.4 **Biniau Baw Ci –** Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug. Cadarnhawyd fod y Cyng. Beca Roberts hefyd wedi gwneud cais am fin ar bont Penrala yn Nhregarth. Nid yw'r Cynghorydd yn derbyn unrhyw ymateb gan Gyngor Gwynedd.

3.5 **Arhosfan Bws/'Pull-in Bay' Llys y Gwynt -** Adroddwyd fod y Clerc wedi danfon llythyr at bennaeth yr adran amgylchedd, Dafydd Wyn Williams, Cyngor Gwynedd i amlygu pryderon y Cyngor Cymuned am y diffyg gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn Llys y Gwynt, ac i ofyn am gyfarfod i drafod ymhellach, nid oedd y Cyngor wedi derbyn ymateb erbyn y cyfarfod diwethaf. Yn dilyn gohebiaeth arall,

derbyniwyd ymateb gan Gerwyn Jones, Pennaeth Adran Cynorthwyol. Nodwyd fod y gwasanaeth 67 yn cael ei weithredu'n fasnachol gan Arriva yn ystod y dydd ar hyn o bryd, felly nid oes gan Gyngor Gwynedd reolaeth dros yr amserlen nac y trywydd. Mae cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo i liniaru effaith 20mya ar wasanaethau Arriva yn ardal Bangor a dyma un o'r rhesymau mae Gerlan wedi cael ei dynnu oddi ar y trywydd h.y. gan eu bod angen yr amser ychwanegol i sicrhau prydlondeb. Mae'n annhebygol y byddai Arriva yn fodlon gweithredu yno heb newid sylweddol i'r amserlen. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o'r rhwydwaith yn ardal Bangor, mae'n bosibl y bydd newidiadau. Yn dilyn trafodaeth, nodwyd siom y Cyngor Cymuned gyda'r ymateb, anwybyddwyd y cynnig o gyfarfod i drafod ymhellach. Yn sgil hyn, penderfynwyd bydd y Clerc yn gofyn am gyfarfod gyda Sian Gwenllian AS ac i gynnwys y Cyng. Beca Roberts, gyda'r gobaith y byddai Sian Gwenllian yn medru trefnu cyfarfod efo Arriva/Cyngor Gwynedd.

**3.6** **Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs coch (Ian Morgan). Nodwyd fod y contractwyr methu cwblhau'r gwaith mewn tywydd gwlyb – ar y gweill.

**3.7** **Bont ar y ffordd B4409 ger Moelyci -** Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd bydd y Clerc yn holi am y posibilrwydd o ymestyn yr ardal 30mya fel ei bod yn cynnwys y darn yma o'r ffordd. Yn dilyn trafodaeth gyda Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd, nodwyd fod y canllawiau ar gyfer gosod terfynau cyflymder yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, a fydd y canllawiau newydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Hydref 2024. Y Clerc i gysylltu yn ôl adeg hyn.

**3.8** **Llecyn Tir Bont Twr** - Nodwyd fod y Clerc wedi ail danfon y dogfennau perthnasol at Matt Brown i amlygu fod tir mewn sylw i fod o dan berchnogaeth y Cyngor Cymuned, ac nid Breedon – dim ymateb hyd yn hyn.

**3.9** **Cysgodfan Bws, Pont Penrala** – Cadarnhawyd fod y Clerc wedi cyfarfod gyda Dafydd Wheldon Williams o Gyngor Gwynedd i drafod y posibilrwydd o osod cysgodfan ar y bont. Adroddwyd fod bosib rhoi cysgodfan yma, ond nid yw'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i ariannu hyn ar hyn o bryd. Y Clerc i ystyried hyn yn y flwyddyn ariannol 2025-26, ac i gadw llygaid am grantiau efallai bydd yn addas.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2024'

**4.1 Un Llais Cymru – Aelodaeth 2024-25 –** Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ail ymaelodi eto eleni.

**4.2 Zurich Municipal – Yswiriant y Cyngor –** Penderfynwyd adnewyddu'r yswiriant gyda Zurich.

**5. Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen -** Yn dilyn gohebiaeth ddiweddar gan Bartneriaeth Ogwen am y bil trydan annisgwyl, penderfynwyd nid yw'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i roi cyfraniad gwirfoddol ar hyn o bryd, ond fe wnawn ystyried rhoi cyfraniad diwedd y flwyddyn ariannol nesaf, yn ddibynnol ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Nodwyd fod y Cyngor yn hapus i barhau gyda'r cyfraniad trefniant blynyddol tuag at y Llyfrgell.

**6. Rhoddion**

Trafodwyd y rhestr rhoddion. Roedd rhaid blaenoriaethu'r ceisiadau gan fudiadau lleol oherwydd sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Clwb Criced a Bowlio | £100.00 | (AJ datgan diddordeb) |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £100.00 | (Dafydd R datgan diddordeb) |
| Llais Ogwan | £250.00 | |
| Carnifal Bethesda | £100.00 | (AJ datgan diddordeb) |
| Hwb Ogwen | £100.00 | |
| Cylch Meithrin Mynydd Llandegai | £100.00 | |

**7. Gwaith y mis**
**7.1 Gyli yng ngwaelod ffordd Chwarel Goch -** Y Clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd fod angen glanhau'r gyli.
**7.2 Bin Halen Dob –** Bin halen dal wedi torri, y Clerc i adrodd eto i Gyngor Gwynedd.

**8. Adroddiad Cynrychiolwyr**
**8.1 Cynllun Llifogydd Mynydd Llandygai –** Adroddwyd fod y Cyng. Gareth P Williams wedi mynychu'r 'drop-in' yn y Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai ar y 18fed o Fawrth. Ni dderbyniwyd y Cyngor unrhyw wybodaeth am y digwyddiad hwn, y Clerc i gysylltu â YGC i holi.
**8.2 Hen Ysbyty Chwarel Penrhyn -** Nodwyd fod y Cyng. Dafydd Roberts wedi mynychu cyfarfod Panel Cyswllt Chwarel Penrhyn, a chylchredwyd diweddariad i'r Cyngor ynglŷn â'r datblygiadau yn yr hen ysbyty.
**8.3 Ysgol Tregarth –** Nodwyd fod y Cyng. Sian Beidas wedi mynychu cyfarfod llywodraethwyr yr ysgol, a chafwyd diweddariad byr.
**8.4 Canolfan Tregarth** - Derbyniwyd diweddariad gan y Cyng. Dafydd Owen am ddatblygiadau diweddar yn y Ganolfan.

**9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
10.1 Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**10. Taliadau**
Dim taliadau.

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C23/0728/16/LL** | Cae Clyd Dob, Tregarth<br>Codi annedd teuluol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0849/16/LL** | Parth 7 Parc Bryn Cegin, Llandygai,<br>Codi unedau diwydiannol newydd<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0844/16/AM** | Parth 7 Parc Bryn Cegin, Llandygai<br>Datblygu 4 uned fasnachol (amrywiol o ran maint) yn cynnwys mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr gyda maes parcio.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0901/16/CT** | 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai<br>Gwaith i goed mewn ardal gadwraeth yng ngardd cefn 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0918/16/LL** | Fferm Tan y Foel, Rallt, Pentir<br>Codi annedd gweithiwr amaethyddol a thanc septig cysylltiedig ynghyd a gwaith tirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C24/0004/16/LL** | Land at Maes Talog, Tregarth<br>Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/1019/16/YA** | Rhes Amana, Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>Adeilad amaethyddol at bwrpas cadw offer a storio peiriannau a phorthiant anifeiliaid. Maint arwynebedd llawr 12m x 8m.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0064/16/AC** | 14 Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>Cais i ddiwygio amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatâd C23/0777/16/DT, ar gyfer estyniad llawr cyntaf newydd yn y cefn ynghyd ag ardal to fflat newydd gydag atriwm, er mwyn caniatáu diwygiad i'r dyluniad i godi uchder to'r estyniad 400mm.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/1026/16/DT** | 33 Tan Y Bwlch, Mynydd Llandygai<br>Trosi rhan o adeilad allanol yn anecs.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C24/0095/16/RA** | Breedon, Chwarel Penrhyn<br>Cais ar gyfer rhyddhau amodau 11 (Mesuriadau osgoad rhesymol i warchod ymlusgiaid) , 33 (Adroddiad monitro Gwaun Gynfi), 34 (Sustem draenio dŵr wyneb) a 38 (Cynllun rheoli/strategaeth cynnal archeolegol) o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C22/0327/16/AC<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0071/16/LL** | Cnc Fuels Parc Bryn Cegin, Llandygai<br>Codi 10 uned ddiwydiannol, mynediad newydd, parcio a thirlunio.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0930/16/CR** | Cororion Cottage Lôn Y Wern, Tregarth<br>Gosod dau ffenestr to ar gefn yr adeilad<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C24/0048/16/LL** | Ynys Ganol, Mynydd Llandygai<br>Adeiladu Menage gydag arwyneb tywod a ffibr gyda ffensys Post a Rheilen o'i amgylch ar gyfer defnydd preifat yn unig.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**11. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C24/0128/16/CA** | 21 Pentre Llandygai, Llandygai<br>Gwaith i goed mewn ardal gadwraeth<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |
| **C24/0150/16/LL** | Cae Herfyn Cottage, Tal Gae, Tregarth<br>Cael gwared ar gwt haf pren presennol a chodi cwt bugeiliaid yn ei le at ddibenion gosod gwyliau<br>**Penderfyniad:** Argymell gwrthod. |
| **C24/0176/16/CC** | Plas y Coed, Bangor<br>Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**13. Unrhyw fater brys arall**
Dim.

**14. Crynodeb Llais Ogwan**
Penderfynwyd cynnwys y canlynol yn grynodeb mis Mawrth:

- Rhoddion
- Sedd wag
- Diweddariad ar wasanaethau bws a Llys y Gwynt.